CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 3382 (Cy. 220 )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhwysir rheolau i gyfrifo'r symiau hynny yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau hynny drwy roi fformwla newydd ym mharagraff 4(1) o Atodlen 1 (didyniadau o'r swm gros), lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 (rhagdybiaethau ynglŷn â'r swm gros), canran newydd ym mharagraff 8(1) o Atodlen 2 (rhagdybiaethau ynglŷn â didyniadau o'r swm gros) ac Atodlen 4 newydd (ffigurau poblogaeth oedolion).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 3382 (W. 220 )

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Under Part II of Schedule 8 to the Local Government Finance Act 1988 billing authorities in Wales are required to pay amounts (called non-domestic rating contributions) to the National Assembly for Wales. Rules for the calculation of those amounts are contained in the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992.

These Regulations amend those Regulations by substituting a new formula in paragraph 4(1) of Schedule 1 (deductions from gross amount), a new multiplier in paragraph 2(12) of Schedule 2 (assumptions as to gross amount), a new percentage in paragraph 8(1) of Schedule 2 (assumptions as to deductions from gross amount) and a new Schedule 4 (adult population figures).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 3382 (Cy. 220 )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *12 Rhagfyr 2000* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**a**) a pharagraffau 4, 5 a 6 o Atodlen 8 iddi, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**b**):

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2000 a byddant yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2000.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**c**).

**Diwygio Rheoliadau 1992**

**2.** Ynglŷn â'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2001, diwygir Atodlenni 1, 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:-

(a) ym mharagraff 4(1) o Atodlen 1, yn lle'r fformwla "(A x £39.90) + (B x 0.00078)" y rhoddir y fformwla "(A x £39.50) + (B x 0.00087)";

(b) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2, yn lle "1.005" y rhoddir "1.004";

(c) ym mharagraff 8(1) o Atodlen 2, yn lle "1.2 per cent" y rhoddir "1 per cent"; a

(a) 1988 p.41.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.

(c) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962 a 1999/3439.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 3382 (W. 220 )

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *12th December 2000* |
| *Coming into force* | *31st December 2000* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by sections 140(4) and 143(1) and (2) of, and paragraphs 4, 5 and 6 of Schedule 8 to, the Local Government Finance Act 1988(**a**), which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales(**b**):

**Citation, commencement and interpretation**

**1.**-(1) These Regulations may be cited as the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2000 and shall come into force on 31st December 2000.

(2) In these Regulations "the 1992 Regulations" means the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992(**c**).

**Amendment of the 1992 Regulations**

**2.** In relation to financial years beginning on or after 1st April 2001, Schedules 1, 2 and 4 to the 1992 Regulations are amended as follows:-

(a) in paragraph 4(1) of Schedule 1, for the formula "(A x £39.90) + (B x 0.00078)" there is substituted the formula "(A x £39.50) + (B x 0.00087)";

(b) in paragraph 2(12) of Schedule 2 for "1.005" there is substituted "1.004";

(c) in paragraph 8(1) of Schedule 2, for "1.2 per cent" there is substituted "1 per cent"; and

(a) 1988 c.41.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672.

(c) S.I. 1992/3238, amended by S.I. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962 and 1999/3439.

(ch) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 y rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

12 Rhagfyr 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(d) for Schedule 4 to the 1992 Regulations there is substituted the Schedule set out in the Schedule to these Regulations.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

12th December 2000

*D. Elis Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

ATODLEN

Rheoliad 2

SCHEDULE

Regulation 2

**"SCHEDULE 4**

Regulation 6

ADULT POPULATION FIGURES

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 54,700 |
| Bridgend | 101,400 |
| Caerphilly | 128,300 |
| Carmarthenshire | 132,800 |
| Cardiff | 247,800 |
| Ceredigion | 57,600 |
| Conwy | 88,700 |
| Denbighshire | 70,600 |
| Flintshire | 113,600 |
| Gwynedd | 91,100 |
| Isle of Anglesey | 50,300 |
| Merthyr Tydfil | 42,000 |
| Monmouthshire | 67,500 |
| Neath Port Talbot | 107,000 |
| Newport | 104,300 |
| Pembrokeshire | 87,600 |
| Powys | 99,100 |
| Rhondda Cynon Taff | 184,400 |
| Swansea | 179,700 |
| Torfaen | 68,100 |
| Vale of Glamorgan (The) | 92,200 |
| Wrexham | 96,800" |

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

**2000 Rhif 3382 (Cy. 3382 )**

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 No. 3382 (W. 220 )**

# RATING AND VALUATION, WALES

The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2000

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090153-3

9 780110 901534

**£1.75**

W/169/02/01 ON